Law Commission
Reforming the law

# Gwarantau chwilio

## Crynodeb o'r Papur Ymgynghori

LCCP235 (Crynodeb)
5 Mehefin 2018

# Cynnwys


| | Paragraff | Tudalen |
|---|---|---|
| **GWARANTAU CHWILIO: CRYNODEB** | **1.1** | **1** |
| Pwrpas y prosiect hwn | 1.1 | 1 |
| Cwmpas y prosiect hwn | 1.6 | 2 |
| Methodoleg | 1.10 | 2 |
| Y gyfraith gyfredol | 1.12 | 3 |
| Beth yw gwarant chwilio | 1.12 | 3 |
| Cael gwarant chwilio | 1.15 | 3 |
| Deunydd sy'n ddarostyngedig i chwiliad dan warant | 1.20 | 4 |
| Grymoedd cysylltiedig | 1.23 | 5 |
| Herio gwarant chwilio | 1.24 | 6 |
| Problemau gyda'r gyfraith | 1.25 | 6 |
| Cymhlethdod | 1.25 | 6 |
| Anghysondeb | 1.26 | 6 |
| Wedi dyddio | 1.27 | 7 |
| Costus | 1.28 | 7 |
| Diwygio'r gyfraith | 1.29 | 7 |
| Gweithredu'r amddiffynfeydd statudol | 1.31 | 8 |
| Gwneud cais am warant chwilio | 1.36 | 8 |
| Cyflwyno gwarant chwilio | 1.43 | 9 |
| Cynnal chwiliad dan warant | 1.50 | 10 |
| Herio gwarant chwilio | 1.56 | 11 |
| Gwybodaeth sensitif ac imiwnedd diddordeb y cyhoedd | 1.63 | 12 |
| Deunydd wedi'i eithrio rhag chwiliad ac atafaeliad | 1.64 | 12 |
| Deunydd electronig | 1.71 | 13 |
| Cydgyfnerthu deddfwriaeth gwarant chwilio | 1.77 | 14 |
| Y camau nesaf | 1.80 | 14 |

# Gwarantau chwilio: crynodeb

## PWRPAS Y PROSIECT HWN

1.1 Yn y prosiect hwn rydym yn adolygu'r gyfraith a'r arferion sydd yn rheoli gwarantau chwilio. Rydym yn archwilio'r drefn o wneud cais am, cyflwyno, cynnal chwiliad dan warant ac herio gwarant chwilio. Rydym hefyd yn archwilio'r ddull o drin deunydd sensitif, deunydd wedi'i eithrio a deunydd electronig. Yn olaf, rydym yn ystyried y graddau y gellir cydgyfnerthu darpariaethau gwarantau chwilio.

1.2 Ymgymerwyd â'r prosiect yma yn unol â chais gan y Swyddfa Gartref, gan ddechrau ym mis Ionawr 2017. Daeth y cais o ganlyniad i sylwadau a wnaed gan aelodau hŷn o'r farnwriaeth yn awgrymu bod y gyfraith yn ymwneud â gwarantau chwilio yn ddiangen o astrus, yn debygol o arwain at heriau ac angen ei diwygio. Amlygir hyn gan y nifer o achosion yn y blynyddoedd diweddar pan heriwyd gwarantau chwilio a'u dileu yn dilyn adolygiad barnwrol: yn yr adroddiadau adroddwyd amdanynt yn unig, cynhaliwyd rhyw 50 adolygiad barnwrol ynghylch gwarantau chwilio ers 2010. Mae gwarantau chwilio ymhlith y grymoedd mwyaf ymwthiol y medr ymchwilwyr eu defnyddio. Gall cost gwarant chwilio diffygiol fod yn sylweddol, gydag ymchwiliadau cyfan yn chwalu a chyrff cyhoeddus o bosibl yn wynebu costau o filiynau, mewn ffioedd cyfreithiol ac iawndal.

1.3 Ein pwrpas yw ystyried y ffyrdd y gellir symleiddio, egluro a rhesymoli cyfraith gwarantau chwilio. Mae hyn er mwyn lleihau'r nifer o wallau a heriau ac i gynorthwyo'r sawl sydd yn gwneud cais am warantau chwilio a'r sawl mae'r gwarantau chwilio am gael eu defnyddio yn eu herbyn er mwyn deall a defnyddio'r system.

1.4 Mae cylch gorchwyl y prosiect, fel y cytunwyd mewn memorandwm o ddealltwriaeth rhwng Comisiwn y Gyfraith a'r Swyddfa Gartref, a lofnodwyd ar 11 Ionawr 2017, fel a ganlyn:

> Mae amcanion diwygiadau'r gyfraith yr adolygiad yn cwmpasu elfennau o resymoli a symleiddio'r gyfraith gyfredol, yn ogystal â dynodi a mynd i'r afael â phroblemau dybryd.
>
> Ffocws yr adolygiad hwn yw gwneud deddfwriaeth gwarantau chwilio yn fwy tryloyw a hygyrch, gan leihau'r maes ar gyfer gwallau, a all yn eu tro arwain at anghyfiawnder sylweddol a gwastraff costau.
>
> Bydd yr adolygiad yn cynnwys ystyriaeth o ddiwygiant trwy newidiadau mewn deddfwriaeth, yn ogystal ag arweiniad anstatudol, Rheolau Trefniadaeth Droseddol a mentrau eraill.

1.5 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi cynnwys ein Papur Ymgynghori, sydd yn manylu ar ein hargymhellion ar gyfer diwygiant. Mae'r Papur Ymgynghori ar gael ar-lein ar https://www.lawcom.gov.uk/project/search-warrants/. Ceir rhestr gyflawn o'n cwestiynau ymgynghori ac argymhellion dros dro ym Mhennod 12 y Papur Ymgynghori. Rydym yn gwahodd ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori hyn. Y terfyn amser ar gyfer yr ymatebion yw 5 Medi 2018.

**Medrwch anfon sylwadau:**

Trwy e-bost at search_warrants@lawcommission.gov.uk

NEU

Trwy'r post at Tîm Cyfraith Trosedd, Comisiwn y Gyfraith, Llawr 1af, Tŵr, 52 Queen Anne's Gate, Llundain, SW1H 9AG.

Ffôn: 020 3334 3100 / Ffacs 020 3334 0201

Os ydych yn anfon eich sylwadau trwy'r post, byddai o gymorth, lle bynnag mae hynny'n bosibl, i chi eu hanfon yn electronig hefyd (er enghraifft ar CD neu trwy e-bost at y cyfeiriad uchod, mewn unrhyw fformat a ddefnyddir yn gyffredinol).

## CWMPAS Y PROSIECT HWN

1.6 Rydym wedi dynodi 176 darpariaeth gwarant chwilio statudol, sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 1. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys gwarantau i gael mynediad i adeiladau ("gwarantau mynediad") a gwarantau i gael mynediad i ac archwilio adeiladau ("gwarantau archwilio"). Cynhwysir grymoedd ategol yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ("DHThD") a Rhan 2 Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 ("DCTH").

1.7 Y tu hwnt i ddeddfwriaeth sylfaenol, ceir darpariaethau ategol yng Nghod B o DdHThD, Cod Ymarfer Grymoedd Mynediad y Swyddfa Gartref a Rheolau Trefniadaeth Droseddol 2015 (fel y'u diwygiwyd).

1.8 Mae'r papur ymgynghori hwn yn canolbwyntio ar y problemau hynny sydd wedi'u nodi yn ystod y dadansoddiad cyn-ymgynghori fel y problemau mwyaf dybryd. Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus agored hwn, rydym yn gwahodd sylwadau ymgyngoreion ar y rhain, ac unrhyw faterion eraill, sy'n ymwneud â chyfraith gwarantau chwilio.

1.9 Nid yw'r prosiect hwn yn ymwneud â grymoedd stopio a chwilio na grymoedd yr heddlu'n fwy cyffredinol.

## METHODOLEG

1.10 Wrth baratoi'r papur ymgynghori hwn, rydym wedi cynnal adolygiad eang o'n llenyddiaeth ac wedi ymdrechu i ymgysylltu â rhanddeiliad trwy drefnu cyfarfodydd a thrafodaethau o gylch y bwrdd. Rydym wedi trafod y gyfraith gydag academyddion, cyfreithwyr, barnwyr, sefydliadau llysoedd, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, adrannau'r llywodraeth a grwpiau diddordeb arbennig. Bu'r broses o drafod ailadroddol hon yn hynod werthfawr wrth ein cynorthwyo i ddeall sut mae'r gyfraith gyfredol yn gweithredu, ei diffygion a dulliau diwygio posibl. Yn ogystal ag archwilio cyfraith Cymru a Lloegr, rydym wedi archwilio'r gyfraith mewn ambell awdurdodaeth arall, ac wedi cysylltu, yn benodol, gyda Chomisiwn y Gyfraith Seland Newydd.

1.11 Mae'n bwysig egluro o'r cychwyn cyntaf mai argymhellion dros dro yn unig yw'r argymhellion a gynhwysir yn y papur ymgynghori hwn. Nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion ynghylch diwygio'r gyfraith ar y cam hwn. Yn ystod yr ymgynghoriad agored cyhoeddus hwn rydym yn gwahodd pob barn ar ein hargymhellion dros dro. Byddwn yn ystyried yr holl sylwadau a ddarperir yn ystod y cyfnod ymgynghori wrth baratoi ein hargymhellion terfynol. Caiff ein hargymhellion eu cyhoeddi mewn adroddiad dilynol.

## Y GYFRAITH GYFREDOL

### Beth yw gwarant chwilio

1.12 Awdurdodiad ysgrifenedig, wedi'i gyhoeddi gan lys, tribiwnlys neu gorff arall ("awdurdod cyhoeddi") i heddwas neu ymchwiliwr arall, yw gwarant chwilio, sydd yn caniatáu i'r person gael mynediad i un adeilad neu fwy, yn ôl yr hyn a nodir yn y gwarant, a chwilio am bersonau neu ddeunyddiau yn yr adeiladau hynny. Mae gan y rhan fwyaf o warantau chwilio rymoedd cysylltiedig, yn awdurdodi'r ymchwiliwr i atafaelu deunyddiau y canfyddir yn ystod y chwiliad ac i ddefnyddio grym rhesymol pan fo angen.

1.13 Fel y nodwyd uchod, ydym wedi dynodi 176 darpariaeth gwarant chwilio. Yn fras, gellir dosbarthu grymoedd gwarant chwilio i'r categorïau canlynol:

(1) grymoedd sy'n ymwneud yn bennaf â hel tystiolaeth o droseddau;

(2) grymoedd at ddibenion ymchwiliadau ehangach, arbenigol, mewn meysydd megis gwasanaethau ariannol a hawlfraint; a

(3) grymoedd sydd yn caniatáu mynediad er mwyn symud oddi ar y fangre pobl neu anifeiliaid sydd mewn perygl neu drybini, cymryd oddi yno deunyddiau peryglus neu a feddir yn anghyfreithlon neu fel arall yn atal neu'n unioni amgylchiadau peryglus.

1.14 Dan adran 8 o DdHThD, y ddarpariaeth o warant chwilio a ddefnyddir amlaf, gall ynad heddwch gyflwyno gwarant chwilio yn ôl gwybodaeth gan heddwas os yw'n fodlon bod seiliau rhesymol dros gredu bod:

(1) trosedd dditiol wedi'i chyflawni;

(2) deunyddiau yn yr adeilad sydd yn debygol o fod o gryn werth i'r ymchwiliad i'r drosedd a sy'n debygol o fod yn dystiolaeth berthnasol; a

(3) bod un o nifer o amodau hygyrchedd wedi ei bodloni, yn dangos na fyddai'n ymarferol cael mynediad i'r adeilad neu fynediad i'r deunyddiau heb warant chwilio.

Mae gan warantau chwilio eraill amodau cyflwyno sydd yn debyg.

### Cael gwarant chwilio

1.15 Gan amlaf yr heddlu sy'n gwneud cais am gwarant chwilio a'u gweithredu yn unol a'r grymoedd o dan DHThD. Mae gan rai ymchwilwyr, megis swyddogion enwebedig yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, rai neu'r cyfan o rymoedd yr heddlu. Estynnwyd i ymchwilwyr eraill, megis swyddogion CThEm, y grym i wneud cais am warant chwilio gan DHThD. At hyn, mae darpariaethau gwarantau chwilio sy'n caniatáu i swyddogion ar wahân i'r heddlu, megis ymchwilwyr arbenigol neu ymchwilwyr eraill, i wneud ceisiadau neu i gario allan gwarantau.

1.16 Mae gan y person sy'n gwneud cais am warant ddyletswydd i ddarparu'r holl wybodaeth hanfodol i fodloni'r llys eu bod yn cwrdd â'r amodau statudol. Yn benodol rhaid ei fod ef neu ei bod hi mewn sefyllfa i fodloni'r llys nad yw'r deunydd a gyrchir wedi ei eithrio rhag chwiliad am unrhyw reswm,[1] ac nad oes unrhyw reswm arall pam na ddylid cyflwyno gwarant. Gan

[1] Gweler para 1.20 isod.

amlaf mae'r wybodaeth mae'r cais wedi ei seilio arno wedi'i osod allan ar ffurflen gais, er gall yr un sy'n cyflwyno'r cais roi manylion ychwanegol yn ystod gwrandawiad llafar y cais.

1.17 Mae gan breswylydd yr adeilad neu unrhyw berson arall y mae'r gwarant wedi ei gyflwyno yn ei h/erbyn yr hawl i wybod am y wybodaeth hon a gall wneud cais i'r llys ei darparu.[2] Er hyn, mae yna achosion pan yw'r un sy'n gwneud y cais yn credu bod peth o'r wybodaeth yn rhy sensitif i'w datgelu, er enghraifft os daethpwyd o hyd iddo trwy wyliadwriaeth dirgel neu os y'i cyflwynwyd gan hysbysydd. Yn yr achosion hyn, gan amlaf caiff y wybodaeth sensitif ei chyflwyno i'r llys mewn dogfen ar wahân.[3] Os yw'r preswylydd yn gwneud cais i'r llys am ddatgeliad llawn o'r wybodaeth, rhaid i'r llys ffurfio ei farn ei hun os yw budd y cyhoedd yn galw am y wybodaeth a nodir fel gwybodaeth sensitif gael ei gadw'n gyfrinachol.[4]Mae'r weithdrefn hon wedi ei thrafod yn ddiweddar gan y Goruchaf Lys.[5]

1.18 Mae adran 8 o DdHThD yn darparu bod gwarant yn cael ei chyflwyno gan "ynad heddwch". Mae hyn yn cynnwys ynadon lleyg a Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon). At hyn, mae gan farnwyr yr Uchel Lys a Barnwyr Cylchdaith rymoedd ynad heddwch mewn materion troseddol, ac felly gallant gyflwyno gwarantau chwilio dan DHTHD. Mae rhai grymoedd chwilio dan statudau eraill tebyg, tra bod eraill yn cyfyngu'r grym i gyflwyno gwarantau chwilio i Farnwr Cylchdaith, barnwr yr Uchel Lys neu dribiwnlys arbenigol.

1.19 Mae adran 15 DHThD yn cynnwys darpariaethau ynghylch a’r ffordd y gwneir cais am ac y cyflwynir gwarant: yn benodol, gwybodaeth sydd rhaid ei ddarparu ar gyfer y llys a'r wybodaeth sy'n rhaid ei nodi ar y gwarant. Mae adran 16 o DdHThD yn cynnwys darpariaethau ynghylch y ffordd y gwneir y chwiliad dan warant, er enghraifft y cyfnod amser y mae'n rhaid i'r chwiliad ddigwydd ynddo a'r wybodaeth sydd i'w darparu i'r preswylydd. Mae'r ddwy adran hon yn berthnasol i bob gwarant chwilio a gyflwynir i heddweision a phobl y mae'r darpariaethau wedi ymestyn iddynt:[6] nid ydynt wedi eu cyfyngu i warantau dan DHThD ei hun. Mae adran 15(1) yn darparu bod unrhyw chwiliad nad yw'n cydymffurfio â gofynion y ddwy adran hon yn anghyfreithlon.

### Deunydd yn ddarostyngedig i chwiliad dan warant

1.20 Mae rhai mathau o ddeunyddiau <u>na</u> ellir chwilio amdanynt dan adran 8 DHTHD neu'r rhan fwyaf o rymoedd eraill. Rhain yw:

(1) deunyddiau sydd yn ddarostyngedig i fraint gyfreithiol, sef cyfathrebiaeth rhwng cyfreithiwr a chleient, neu rhwng cyfreithiwr a thrydydd parti pan fydd yn ymwneud â chyfreithiad;

(2) deunydd ag eithriwyd, sef cofnodion meddygol ac ymgynghorol a deunydd newyddiadurol cyfrinachol; a

---

2 Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rh 5.7(6)

3 Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rh 47.26(4).

4 Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rh 15.3 (3)(b)

5 *R (Haralambous) v Llys y Goron St Albans* [2018] UKSC 1, [2018] 2 WLR 357 at [27].

6 Gan gynnwys swyddogion yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, ymchwilwyr ariannol achrededig, swyddogion y Swyddfa Twyll Difrifol, swyddogion Cyllid a Thollau, swyddogion mewnfudo a swyddogion tollau dynodedig. Gweler SI 2015 Rhif 1783, atodiad 1; SI 2015 Rhif 759 (fel yr addaswyd gan SI 2017 Rhif 1222), erth 2; a SI 2013 Rhif 1542, atodiadau 1 a 2.

(3) deunydd gweithdrefn arbenigol, sef cofnodion busnes cyfrinachol a deunydd newyddiadurol nad yw'n gyfrinachol.

1.21 Rydym yn cyfeirio at y tri categori hyn o ddeunyddiau ar y cyd fel "deunydd wedi'i eithrio". Mae gweithdrefn dan Atodiad 1 o'r DdHThD, lle gall Barnwr Cylchdaith neu Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon) ganiatáu mynediad i ddeunydd gweithdrefn arbennig, ac mewn achosion prin iawn i ddeunydd wedi'i eithrio. Fel arfer bydd y barnwr yn gwneud "gorchymyn cyflwyno", sydd yn golygu bod yn rhaid i'r person mae'r gorchymyn wedi'i wneud yn ei h/erbyn cyflwyno'r deunydd a nodwyd o fewn cyfnod penodol. Os gwneir gorchymyn cyflwyno ac na ufuddheir iddo, neu os nad yw'n ymarferol i wneud un am resymau amrywiol, gellir cyflwyno gwarant yn ei lle.[7]

1.22 Mae ystyriaethau arbennig yn codi mewn achos deunydd sydd wedi'i storio mewn ffurf electronig, naill ai yn neu oddi ar yr adeilad sy'n cael ei chwilio.

(1) gall gwarant chwilio awdurdodi chwilio am, ac atafaelu, dyfais electronig gyda gwybodaeth wedi'i storio arni; ond os oes rheswm i gredu bod unrhyw ran o hyn yn ddarostyngedig i fraint cyfreithiol neu ei fod wedi'i eithrio o'r chwiliad fel arall, rhaid i'r warant nodi yn benodol y deunydd sydd wedi'i eithrio; a

(2) nid oes grym i chwilio am ddeunydd wedi'i storio o bell, megis deunydd sydd wedi'i storio ar y cwmwl neu weinydd pell.[8]

## Grymoedd cysylltiedig

1.23 Mae nifer o rymoedd eraill sydd yn berthnasol i a ddylai a sut medrir chwilio mangre. Er enghraifft:

(1) mae grymoedd statudol i chwilio mangre person sydd wedi ei h/arestio;[9] yn ogystal, mae grym cyfraith gyffredin i'r un perwyl;

(2) lle mae heddwas yn unrhyw ar unrhyw fangre yn gyfreithlon, p'un ai dan gwarant chwilio ai peidio, gallant atafaelu unrhyw ddeunyddiau os oes sail resymol dros gredu eu bod yn dystiolaeth o drosedd (nid o reidrwydd y drosedd sy'n cael ei harchwilio), os oes sail resymol i gredu ei bod yn hanfodol eu hatafaelu er mwyn atal y dystiolaeth rhag cael ei chuddio, ei cholli, ei newid neu ei ddifa;[10]

(3) mae grym i fynnu bod person ar fangre yn cynhyrchu, mewn ffurf weladwy a darllenadwy unrhyw wybodaeth sydd yn hygyrch o'r fangre, os:

(a) oes sail resymol i gredu ei bod yn dystiolaeth sy'n berthnasol i drosedd a ellir fel arall ei chuddio, ei cholli, ei newid neu ei difa;[11] neu

---

7 Mae rhai o'r cyfundrefnau ymchwilio arbenigol sy'n ymwneud â meysydd megis hawlfraint a gwasanaethau ariannol hefyd yn cynnwys gweithdrefn ar gyfer gwneud gorchmynion cynhyrchu yn hytrach na chyflwyno gwarant chwilio.

8 Mae hyn yn galluogi i ffeiliau electronig gael eu golygu a'u rhannu tra'n cael eu trafod o bosibl mewn awdurdodaeth arall. Bydd hygyrchedd deunydd yn dibynnu ar gysylltiad o ddyfais, y gellid ei therfynu'n sydyn.

9 DHThD, au 18 a 32.

10 DHThD, a 19.

11 DHThD, a 19(4).

(b) os byddai'n atebol i gael ei hatafaelu dan amodau'r warant neu rymoedd penodol eraill os oedd yn yr adeilad mewn ffurf cyffyrddadwy.[12]

fodd bynnag, mae'r ddau rym hyn ond ar gael i'r heddlu neu bobl â grymoedd tebyg, ac ond yn berthnasol i ddeunydd sydd i'w weld yn amlwg adeg y chwilio. Nid ydynt yn caniatáu'r ymchwilir i chwilio neu i ofyn am gyfrineiriau neu fynediad i fanylion; ac

(4) mewn rhai achosion, nid yw'n ymarferol i benderfynu yn fan a'r lle ar safle'r chwiliad os yw'r deunydd a ganfuwyd ar y safle o fath y gellir ei atafaelu'n gyfreithiol ai peidio. Mae yna weithdrefn a elwir "atafaelu a hidlo" sy'n gweithredu mewn achosion o'r math hyn i ganiatáu i'r deunydd gael ei gludo ymaith i'w ddidoli yn ddiweddarach.[13] Lle gall peth o'r defnydd fod yn ddarostyngedig i fraint gyfreithiol, gall hyn olygu hysbysu cyfreithwyr annibynnol i oruchwylio'r broses o chwilio neu ddidoli.

### Herio gwarant chwilio

1.24 Gellir herio cyflwyno gwarant trwy adolygiad barnwrol: os yw'r her yn llwyddiannus gall yr Uchel Lys ddileu'r gwarant a gorchymyn bod unrhyw ddeunyddiau a atafaelwyd yn cael eu dychwelyd. Os delir bod chwiliad yn anghyfreithlon am unrhyw reswm gall y preswylydd ddwyn achos sifil am dresmasu ar dir neu ar nwyddau. Yn ogystal, mae yna weithdrefn o wneud cais i Lys y Goron i fynnu bod y deunyddiau a atafaelwyd yn cael eu dychwelyd. Defnyddir y weithdrefn hon os, er enghraifft, yw deunyddiau a atafaelwyd dan weithdrefnau "atafaelu a hildio" i'w gweld, wedi iddynt gael eu harchwilio, yn ddeunyddiau nad oedd â'r grym i'w hatafaelu.[14] I'r gwrthwyneb, gall yr ymchwiliwr wneud cais i gadw'r deunydd pe byddai sail i gyflwyno gwarant newydd ar unwaith pe cawsai'r deunyddiau eu dychwelyd. [15]

## PROBLEMAU GYDA'R GYFRAITH

### Cymhlethdod

1.25 Mae nifer o’r darpariaethau, ynghyd â'u cymhlethdod, yn arwain at dirwedd deddfwriaethol dryslyd. Mae hyn yn hidlo trwy bob cam o weithdrefn y gwarant chwilio: mae risg wrth wneud cais am warant chwilio bod gwallau drafftio'n digwydd, bod cyflwyno gwarant chwilio yn fawr ddim mwy na sêl bendith ar yr ymarfer ac na all preswylwyr ddeall maint grym y wladwriaeth a'u hawliau eu hunain. Effaith y materion hyn ar y cyd yw heriau cyson a bod ymchwiliadau yn gallu chwalu.

### Anghysondeb

1.26 Mae nifer o statudau yn darparu grymoedd gwarant chwilio. Mae gwahaniaethau ar draws y statudau hyn ynghylch pwy all wneud cais am warant chwilio a chynnal chwiliad, dan ba amodau y gwneir y cais a'r chwiliad. Er bod modd egluro rhai o'r gwahaniaethau hyn trwy natur wahanol ymchwiliadau, mae anghysonderau a bylchau posibl mewn galluoedd chwilio. Yn ogystal mae anghysonderau yn y weithdrefn ar gyfer cael gwarant chwilio, ym mherthnasedd y dulliau diogelu statudol a'r amddiffynfeydd a ddarperir ar gyfer categorïau

---

[12] DHThD, a 20.

[13] DCTH, au 50 a 51.

[14] DCTH, a 59.

[15] DCTH, a 59(6).

penodol o ddeunyddiau. Mae hyn yn creu risg bod gan unigolion lai o amddiffynfeydd nag a ddylai fod ganddynt.

### Dyddiedig

1.27 Rydym yn byw mewn cyfnod lle gall deunyddiau gael eu storio o bell ar draws awdurdodaethau lluosog. Mae cyfran helaeth o'r darpariaethau sy'n rheoli gwarantau chwilio, yn benodol y rhai hynny sydd wedi'u cynnwys yn DHThD, yn dyddio'n ôl i gyfnod cyn deunydd electronig ac yn methu delio gyda'r dechnoleg ddigidol sydd yn datblygu, a'r ffyrdd y mae gweithgareddau troseddol yn digwydd erbyn hyn.

### Costus

1.28 Nid yw'r weithdrefn ar gyfer cael gwarant chwilio yn gweithio'n effeithlon bob amser. Ymhellach, mae'r nifer o apeliadau a gynhyrchir gan ddeddfwriaeth gwarantau chwilio, a'r ffioedd cyfreithlon ynghlwm, yn creu costau eithafol i bob parti.

## DIWYGIO'R GYFRAITH

1.29 Mae gwarantau chwilio yn ateb diben pwysig ac yn hanfodol i ymchwiliadau troseddol. Yn ogystal maent yn codi materion cyfansoddiadol pwysig ynghylch y gyfraith a'r cydbwysedd cywir rhwng grymoedd y wladwriaeth a hawliau a rhyddid y dinesydd, yn benodol yr hawl i breifatrwydd ac amddiffynfeydd rhag ymyrraeth gan y wladwriaeth. Bwriad canolog yr argymhellion dros dro yn ein papur ymgynghori oedd cydbwyso'r buddion pwysig hyn. Amcan ein argymhellion dros dro yw:

(1) i symleiddio'r gyfraith - rydym eisiau symleiddio'r gyfraith trwy ei gwneud yn fwy rhesymegol a dealladwy ar bob cam o'r broses gwarant chwilio. Mae ein hargymhellion dros dro yn ceisio lleihau'r cwmpas ar gyfer camgymeriadau a gwneud y gyfraith yn fwy effeithlon;

(2) gwneud y gyfraith yn decach - rydym eisiau gwneud y gyfraith yn decach trwy ymestyn amddiffynfeydd, ei gwneud yn haws i herio gwarantau chwilio diffygiol a gwneud y gyfraith yn fwy tryloyw. Mae ein hargymhellion yn ceisio sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu diogelu a bod chwiliad dan warant yn angenrheidiol ac yn gymesur;

(3) moderneiddio'r gyfraith - rydym eisiau moderneiddio'r gyfraith i sicrhau ei bod yn adlewyrchu natur newidiol ymchwiliadau a'i bod yn medru ddelio gyda deunydd electronig. Mae ein hargymhellion yn ceisio sicrhau bod asiantaethau archwilio yn medru mynd i'r afael â natur esblygol trosedd tra'n cynnal dulliau amddiffyn cadarn ac effeithlon; a

(4) gwneud y gyfraith yn gost-effeithiol - rydym eisiau gwneud y gyfraith yn gost-effeithiol trwy gyflwyno dull llyfn o gael gwarant chwilio a gweithdrefn newydd i herio a chywiro diffygion trefniadol. Mae ein hargymhellion dros dro, yn ogystal â symleiddio'r gyfraith, yn ceisio lleihau'r nifer uchel o adolygiadau barnwrol a'u cost.

1.30 Rydym yn amlinellu'n hargymhellion dros dro isod.

## Gweithredu'r dulliau diogelu statudol

1.31 Ym Mhennod 3 y papur ymgynghori rydym yn ystyried gweithredu'r dulliau diogelu statudol dan adrannau 15 a 16 o DdHThD. Mae'r dulliau diogelu hyn yn rheoli'r broses ar gyfer cael gwarant chwilio a sut cyflawnir y gwarantau yn y drefn honno.

1.32 Yn 2018 nid yw bellach yn briodol i ystyried yr heddlu fel yr unig asiantaeth sy'n gwneud cais am ac yn cyflawni gwarantau chwilio. Yn fwy ac yn fwy aml, cynhelir ymchwiliadau gan asiantaethau eraill, neu gan yr heddlu ac asiantaethau eraill ar y cyd. O ganlyniad, gellir gwneud cais am nifer o fathau o warant chwilio gan asiantaethau ar wahân i'r heddlu. Yn ogystal, gall llawer o warantau, waeth pwy sy'n gwneud cais amdanynt, gael eu cyflawni gan yr heddlu, neu asiantaethau eraill neu'r ddau yn gweithredu gyda'i gilydd. O ganlyniad, nid yw'n dilyn mai'r un asiantaeth sy'n gwneud cais am warant a'r asiantaeth sy'n ei gweithredu.

1.33 Rydym felly yn ystyried ei bod yn afreolaidd bod yr amddiffynfeydd yn adrannau 15 a 16 o DdHThD wedi'u cyfyngu i warantau a "roddir i" gwnstabliaid yr heddlu a phobl y mae'r darpariaethau wedi'u hymestyn iddynt. Ym Mhennod 3 y papur ymgynghori rydym yn argymell, dros dro, y dylai adrannau 15 a 16 o DdHThD fod yn berthnasol i bob gwarant chwilio sy'n ymwneud ag ymchwiliad troseddol waeth pwy sy'n gwneud y cais a phwy sy'n cynnal y chwiliad. Ni ddylid cyfyngu'r adrannau i archwiliadau a gynhelir gan gwnstabliaid yr heddlu a'r bobl y mae'r darpariaethau wedi'u hymestyn iddynt yn gyfredol.

1.34 Mae rheolau pellach ynghylch cynnal chwiliad wedi'u cynnwys yn y cod ymarfer ("Cod B") a wnaed dan rymoedd DhTHD. Mae amwysedd yn DhTHD ac yn amodau Cod B ynghylch a ddylid dilyn y rheolau hyn pan nad yw'r ymchwiliad yn cael ei gynnal gan yr heddlu. Rydym felly yn argymell dros dro y dylent hwy hefyd weithredu ar gyfer pob gwarant chwilio sy'n berthnasol i ymchwiliad troseddol.

1.35 Rydym hefyd yn argymell dros dro diwygio adran 15(1) o DdHThD i egluro pa ymddygiad sy'n gorfod cydymffurfio gyda'r chwiliad ac effaith anghydsyniad.

## Gwneud cais am warant chwilio

1.36 Ym Mhennod 4 y papur ymgynghori rydym yn ystyried diwygio posibl i'r weithdrefn a ddefnyddir gan ymchwilwyr sy'n gwneud cais am warant. Fel y nodwyd yn ddiweddar gan y Goruchaf Lys, lluniwyd y cynllun gwarant archwilio statudol i gael ei gweithredu'n gyflym ar gamau cynnar ymchwiliad yr heddlu.[16] Rydym yn ystyried y dylid diwygio'r weithdrefn sy'n llywodraethu cyflwyno gwarantau chwilio er mwyn gwella effeithlonrwydd trefniadol a lleihau'r sgôp am gamgymeriadau difrifol. Ar yr un pryd, rydym yn ystyried y dylid gwneud y gyfraith yn fwy dealladwy trwy egluro a chywiro ffurflenni, canllawiau a chorffori dyletswyddau cyfraith gyffredin ac arsylwadau barnwrol mewn deddfwriaeth. Ein bwriad yw hybu mwy o gydymffurfio gyda meini prawf statudol a dyletswydd didwylledd.

1.37 Cwnstabl yn unig all wneud cais am gyfran sylweddol o fathau o warant chwilio, gan gynnwys dan adran 8 DHThD. Bellach mae gan nifer cynyddol o asiantaethau y grym i wneud cais am warant chwilio, neu i awdurdodi unigolyn i wneud cais ar eu rhan. Rydym yn gwahodd barn ymgyngoreion a ddylid ymestyn y grym i wneud cais am warant chwilio i asiantaethau na fedrant, ar hyn o bryd, wneud cais am warant chwilio sydd wedi derbyn dyletswydd ymchwilio i droseddau.

---

[16] *R (Haralambous) v Llys y Goron yn St Albans* [2018] UKSC 1, [2018] 2 WLR 357 at [15]; *R (Hafeez) v Southwark Crown Court* [2018] EWHC 954 (Admin) at [13].

1.38 Rydym hefyd yn ystyried y ffurflenni cais a ragnodir gan y Rheolau Trefniadaeth Droseddol i'w paratoi gan ymchwiliwyr i gefnogi'r cais am warant chwilio. Rydym yn gwahodd barn ymgyngoreion ar newid y math a chynnwys ffurflenni cais i'w gwneud yn haws eu defnyddio a sicrhau cydymffurfio gyda meini prawf statudol.

1.39 Mae Pennod 4 y papur ymgynghori yn delio hefyd gyda dyletswydd didwylledd. Pan yn gwneud cais am warant, rhaid i'r ymgeisydd wneud datgeliad llawn a didwyll. Mae hyn yn cynnwys sôn am unrhyw amgylchiadau a all gyfrif yn erbyn cyflwyno'r warant chwilio. Cyfeirir at hyn fel "dyletswydd didwylledd". Fel ddyletswydd cyfraith gyffredin, mae dyletswydd didwylledd yn deillio o ddarn helaeth o gyfraith achos ond nid yw ar gael ar wyneb statud. Rydym yn argymell dros dro y dylid nodi dyletswydd didwylledd yn gliriach er mwyn sicrhau bod ymchwilwyr yn cydymffurfio ag ef. Rydym yn gwahodd barn ymgyngoreion ar y ffurf y dylai dyletswydd didwylledd ei gorffori a chynnwys y ddyletswydd.

1.40 Mae adran 15 DHThD yn darparu gofynion manwl ynghylch beth ddylai gwarant chwilio ei chynnwys. Rydym yn argymell dros dro y dylai Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol ragnodi ffurf safonol ar gyfer gwarantau chwilio er mwyn sicrhau cydymffurfio ag adran 15 DHThD.

1.41 Mae'r rheolau ynghylch sut mae ymchwiliwr yn trefnu gwrandawiad i wneud cais am warant a sut ddylid cynnal y gwrandawiad hwnnw wedi eu cynnwys yn adran 15 DHThD, Cod B DHThD a'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol. Rydym yn gofyn cyfres o gwestiynau am y weithdrefn hon ac yn gwahodd barn ymgyngoreion a ddylid cael mwy o fanylder yn rheolau'r llys neu ganllawiau’r DHThD ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan ymgeisydd mewn gwrandawiad ar gyfer gwarant chwilio.

1.42 Nid oes angen gwarant ar gyfer pob chwiliad. Mae adran 18 DHTHD yn darparu y gall cwnstabl gael mynediad i a chwilio unrhyw adeilad lle mae person yn byw neu a reolir gan y sawl sydd wedi ei arestio am drosedd dditiol. Mae rhanddeiliad wedi nodi pryder y gall fod tuedd i osgói gweithdrefn y warant trwy restio heb warant. Rydym yn gwahodd barn ymgyngoreion ar werth egluro'r berthynas rhwng gwarantau chwilio a chwiliad adeilad yn dilyn restio dan DHTHD.

### Cyflwyno gwarant chwilio

1.43 Ym Mhennod 5 y papur ymgynghori rydym yn trafod y weithdrefn ynghylch cyflwyno gwarant chwilio. Mae ein ffocws ar sut gellir gwella gweithdrefnau, i sicrhau rhoi'r parch dyledus i ofynion cyfreithiol a chadw'r nifer o heriau i'r rhai sydd yn hollol hanfodol yn unig. Mae nifer o randdeiliaid wedi adrodd am dueddiad i lysoedd drin ceisiadau am warantau chwilio fel ymarfer rhoi sêl bendith i'w osod o'r neilltu cyn bod gwaith go-iawn y dydd yn dechrau. Rydym felly yn ystyried ffyrdd o wella trosolwg cyfreithiol.

1.44 Trwy symleiddio'r dull o gyflwyno gwarant chwilio, rydym yn ceisio lleihau'r cwmpas ar gyfer camgymeriadau a gwneud y gyfraith yn fwy effeithlon. Rydym hefyd yn ystyried gweithdrefn unffurf i sgrinio ceisiadau am warant chwilio i sicrhau eu bod mewn cyflwr addas i gael eu hystyried gan yr awdurdod cyflwyno, gan wneud y gyfraith yn fwy cost-effeithiol a dwysáu archwiliadau barnwrol. Ar yr un pryd, rydym yn ystyried y dylai'r gyfraith fod yn fwy tryloyw ac yn argymell gofyniad i gofnodi a chyhoeddi ystadegau i fonitro'r defnydd o warantau chwilio.

1.45 Rydym yn archwilio pwy fedr gyflwyno gwarant chwilio ac yn hel barn pobl ar a ddylid cael canllawiau cyffredinol neu ofyniad y dylid, mewn rhai achosion, gwneud ceisiadau am warantau chwilio i Lys y Goron neu Farnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon) yn hytrach nad i ynadon lleyg. Rydym hefyd yn gwahodd barn ymgyngoreion ar a ddylid cyfyngu grym ynad heddwch i gyflwyno gwarant chwilio i'r rhai hynny sydd wedi derbyn hyfforddiant arbennig.

1.46 Pan gwneir cais i lys ynadon am warant chwilio yn ystod diwrnod gwaith arferol, gofynnwn a ddylai bod yn ofyniad i ynad lleyg gan cymorth gan gynghorwr cyfreithiol. Rydym yn gofyn hefyd a ddylai fod lleiafswm o ddau ynad lleyg ar fainc i ystyried y cais.

1.47 Ar gyfer ceisiadau a wneir y tu allan i oriau'r llysoedd, gofynnwn a ddylid ffurfioli'r weithdrefn. Yn benodol, gofynnwn a ddylid gwneud ceisiadau am warantau chwilio y tu allan i oriau i farnwr sy'n gymwys yn gyfreithiol.

1.48 Er mwyn gwella archwiliadau barnwrol, gofynnwn a ddylid cael trefniant blaenoriaethau, lle bydd barnwr neu gynghorwr cyfreithiol yn penderfynu a yw'r cais mewn cyflwr boddhaol i farnwr benderfynu'r cais, ac os felly a oes angen gwrandawiad llafar. Byddai hyn yn cynnwys trefniadau rhestrau wedi'u diwygio, wedi'u cysylltu o bosibl gyda gofyniad i gyflwyno ceisiadau mewn ffurf electronig.

1.49 Rydym yn argymell dros dro y dylid cael gweithdrefn safonol ar gyfer cofnodi gwybodaeth ychwanegol a gyflwynir gan yr ymchwiliwr i'r llys yn ystod y gwrandawiad. Yn ogystal, rydym yn argymell dros dro dyletswydd statudol ar yr awdurdod sy'n cyflwyno i ddarparu rhesymau ysgrifenedig ynghylch cyflwyno neu wrthod gwarant chwilio. Yn olaf, rydym yn argymell dros dro y dylid gwneud trefniadau i gadw ystadegau ar geisiadau am warantau chwilio.

## Cynnal chwiliad dan warant

1.50 Ym Mhennod 6 y papur ymgynghori rydym yn trafod y rheolau ynghylch sut i gynnal chwiliad dan warant. Rydym yn trafod y rheolau ynghylch sut i gynnal chwiliad dan warant. Mae statudau sy'n darparu ar gyfer mathau gwahanol o warantau chwilio yn gwahaniaethu yn nifer o'r meysydd hyn. Rydym yn ystyried y dylid cael mwy o gysondeb yn y grymoedd sydd ar gael i archwilwyr dan y warant tra'n sicrhau bod hawliau preswylwyr yn cael eu parchu.

1.51 Rydym yn archwilio pwy fedr gynnal chwiliad dan warant a gofyn a oes asiantaethau ymchwiliol sydd â'u grymoedd wedi'u rhwystro'n ddiangen gan na fedrant weithredu gwarant chwilio. Rydym yn argymell dros dro egluro mewn statud pwy all fynd gyda'r sawl sydd yn cynnal chwiliad dan warant.

1.52 Rydym yn trafod am ba hyd y dylai gwarantau chwilio barhau'n ddilys. Rydym yn gofyn a ddylid cael unffurfiaeth mewn perthynas â'r cyfnod mae gwarant chwilio'n parhau'n ddilys neu a ddylid newid cyfnod dilysrwydd am unrhyw ddarpariaethau penodol. Rydym yn gofyn hefyd a ddylai'r grym cyfredol i awdurdodi chwiliadau ar achlysurol lluosog gael ei ymestyn i bob gwarant chwilio at ddibenion archwiliadau troseddol.

1.53 Rydym yn ystyried yr adeg o'r dydd y dylai chwiliad ddigwydd. Rydym yn argymell dros dro lle cynhelir chwiliad gan warant rhwng 10pm a 6am, dylid cael awdurdodiad barnwrol ymlaen llaw i wneud hynny ar yr adeg hon. Ymhellach, dylid bob angen dangos, ar wyneb gwarant chwilio, yr oriau y gellir cyflawni'r chwiliad.

1.54 Rydym yn archwilio'r darpariaethau sy'n rheoleiddio pa wybodaeth ddylid ei darparu ar gyfer y preswylydd yn ystod y chwiliad. Rydym yn argymell dros dro y dylid newid y statud fel bod copi o'r warant gyflawn ar gael i'w rhoi i'r preswylydd, gan gynnwys unrhyw atodlen wedi ei hatodi iddo. Byddai hyn yn adlewyrchu datblygiadau yng nghyfraith achos. Yn ogystal, rydym yn argymell dros dro bod y sawl sy'n cynnal y chwiliad yn darparu'r preswylydd gyda chanllaw awdurdodol i rymoedd chwilio, wedi'i ysgrifennu mewn Saesneg clir a'i fod ar gael mewn ieithoedd eraill. Rydym hefyd yn argymell dros dro bod angen i warant chwilio nodi bod gan y person yr hawl i gael y wybodaeth roddodd yr ymchwiliwr i'r llys i gefnogi'r warant ac egluro sut i wneud cais am gopi.

1.55 Yn olaf, rydym yn trafod a ddylai fod gan y preswylydd yr hawl i gael cynrychiolydd cyfreithiol yn bresennol yn y chwiliad. Rydym yn argymell dros dro bod Cod B yn cael ei ddiwygio i nodi, os yw'r preswylydd yn gofyn am bresenoldeb cynghorwr cyfreithiol yn ystod y chwiliad, y dylid caniatáu hyn heb oedi'r chwiliad yn ddiangen. Ymhellach, os ydynt yn bresennol, dylai fod gan gynrychiolwyr cyfreithiol yr hawl i wylio'r chwiliad ac atafaeliad deunyddiau er mwyn gwneud eu nodiadau eu hunain.

### Herio gwarant chwilio

1.56 Ar hyn o bryd, y brif ffordd o herio gwarant chwilio yw trwy adolygiad barnwrol. A gellir gwneud cais dan adran 59 DCTH ar gyfer dychwelyd neu gadw'r deunyddiau a atafaelwyd. Ym Mhennod 7 y papur ymgynghori rydym yn trafod a yw'r dulliau cyfredol o herio gwarantau chwilio yn foddhaol.

1.57 O'n trafodaethau gyda rhanddeiliaid rydym yn ymwybodol bod y dull cyfredol o herio gwarantau chwilio, yn enwedig o'u defnyddio mewn cyfuniad, yn rhy astrus o lawer. Gall y cyfuniad o adolygiad barnwrol a gweithdrefnau adran 59 arwain at oediadau hirion a chostau anghymesur. Mae'r system gyfredol yn galluogi hawlwyr ag adnoddau digonol i ddwyn achosion tactegol gerbron er mwyn oedi'r system gyfiawnder troseddol, tra'n ei gwneud yn anodd i eraill herio ymddygiad anghyfreithlon. Mae angen brys i lyfnhau'r gweithdrefnau fel bod yr un llys yn medru ystyried yr holl faterion yn yr achos.

1.58 Rydym yn argymell dros dro bod gweithdrefn newydd yn cael ei chyflwyno, wedi'i seilio’n gyffredinol ar adran 59 DCTH. Ein bwriad yw galluogi Llys y Goron i gael grym trosolwg barnwrol holl gynhwysfawr dros warantau chwilio, gan edrych ar a gawsai'r warant ei chyflwyno'n gywir ac a oedd y chwiliad wedi'i gynnal yn gywir.

1.59 Os yw'n fodlon nad oedd digon o wybodaeth wedi ei ddarparu i'r llys oedd yn cyflwyno neu bod toriad o adran 15 neu 16 DHTHD, dylai fod gan y llys y grym i orchymyn dychwelyd y deunyddiau a atafaelwyd a, lle bo angen, i osod y warant o'r neilltu. Ni fyddai hyn yn cynnwys canfod bod y warant yn annilys neu'n anghyfreithlon, ac ni fyddai gan y gorchymyn i'w gosod o'r neilltu effaith ôl-dremiol.

1.60 Byddai hawl gan yr ymchwiliwr i wrthwynebu cais dan y weithdrefn newydd ar sail prawf dau gymal: yn gyntaf, trwy sefydlu, ar y ffeithiau sydd bellach yn wybodus, bod sail i gyfiawnhau cyflwyno gwarant dan yr un y byddai'r un deunyddiau, efallai, wedi'u hatafaelu. Yn ail, trwy sefydlu ei bod er budd cyfiawnder i ganiatáu cadw'r deunydd. Wrth benderfynu a fyddai er budd cyfiawnder, byddai'n ofynnol i'r llys dalu sylw i restr anghyflawn o ffactorau.

1.61 Yn ogystal â'r grym i osod y warant o'r neilltu a gorchymyn dychwelyd y deunydd a atafaelwyd neu a gynhyrchwyd, rydym yn gwahodd barn ar ba rymoedd eraill ddylai fod ar gael dan y weithdrefn a argymhellir. Yn benodol, rydym yn ystyried grymoedd i awdurdodi cadw deunydd a atafaelwyd neu a gynhyrchwyd; rhoi cyfarwyddiadau ynghylch archwilio, cadw, gwahanu neu ddychwelyd y cyfan neu unrhyw ran o'r eiddo a atafaelwyd; gorchymyn dychweled neu ddistrywio copïau; a gorchymyn parti i dalu costau parti arall.

1.62 Byddai'r weithdrefn newydd ond ar gael mewn achosion lle roedd deunyddiau wedi'u hatafaelu ac ni fyddai'n cynnwys grym i gyflwyno iawndal. Byddai'r dewis o wneud cais am adolygiad barnwrol yn dal ar gael. Lle mae adolygiad barnwrol o warant, dylai'r Uchel Lys benderfynu a ddylid gorchymyn dychwelyd y deunydd a atafaelwyd, a byddai ganddynt holl rymoedd a dyletswyddau Llys y Goron dan y weithdrefn newydd. Dylai hyn osgoi dyblygu gweithdrefnau.

### Gwybodaeth sensitif ac imiwnedd diddordeb y cyhoedd

1.63 Ym Mhennod 8 y papur ymgynghori rydym yn trafod datgelu gwybodaeth sensitif gan yr ymgeisydd i'r llys, a phenderfyniad y llys a ddylid ei ddatgelu i'r preswylydd. Adolygwyd y maes hwn o'r gyfraith yn drylwyr yn ddiweddar gan y Goruchaf Lys. Rydym yn gwahodd barn ymgyngoreion ynghylch a oes modd gwella'r weithdrefn gyfredol ynghylch delio gyda gwybodaeth sensitif ac imiwnedd diddordeb y cyhoedd mewn perthynas â gwarantau chwilio.

### Deunydd wedi'i eithrio rhag chwiliad ac atafaeliad

1.64 Fel yr eglurwyd uchod, dan y rhan fwyaf o fathau o warantau, nid oes grym i chwilio am nac atafaelu:

(1) deunydd sy'n ddarostyngedig i fraint cyfreithiol;

(2) deunydd a eithriwyd, (cofnodion meddygol ac ymgynghorol a deunydd newyddiadurol cyfrinachol); neu

(3) deunydd gweithdrefn arbenigol, (cofnodion busnes cyfrinachol a deunydd newyddiadurol nad yw'n gyfrinachol).

Fodd bynnag, mae yna weithdrefn dan Atodiad 1 i DHTHD ar gyfer datgelu deunydd gweithdrefn arbenigol ac, mewn ychydig iawn o enghreifftiau, deunydd a eithriwyd.

1.65 Ym Mhennod 9 y papur ymgynghori rydym yn trafod rhai anawsterau mae rhanddeiliaid wedi adrodd amdanynt wrth ddelio gyda hawliadau o fraint cyfreithiol. Rydym yn ystyried a ddylai'r weithdrefn ar gyfer cyfarwyddo cyfreithwyr annibynnol gael ei hymgorffori mewn statud neu reolau llys, a sylwedd unrhyw fframwaith ddeddfwriaethol arfaethedig. Rydym hefyd yn trafod a ddylai fod gan Lys y Goron yr hawl i orchymyn person sy'n gwneud cais am hawl cyfreithiol i ddarparu telerau chwilio neu ddangosyddion eraill ar gyfer dynodi deunydd sy'n debygol o fod yn freintiedig. Mewn achosion lle mae person yn gwneud cais camarweiniol am fraint cyfreithiol, gofynnwn a ddylid cael cosb mewn costau, gan gynnwys costau'r hidlo.

1.66 Rydym hefyd yn ystyried bod y sefyllfa mewn perthynas â deunydd gweithdrefn arbennig a deunydd wedi'i eithrio yn afresymegol. Mae argaeledd y categorïau hyn o ddeunyddiau yn dibynnu ar ba bryd y gorchmynnwyd y statud (cyn neu ar ôl DHTHD) ac a yw'r ymchwiliad yn cael ei gynnal gan yr heddlu neu gan bobl â grymoedd tebyg.[17]Rydym yn ystyried bod y rhain yn wahaniaethau mympwyol a diegwyddor.

1.67 Mewn perthynas â deunydd wedi'i eithrio, rydym yn argymell dros dro y dylid cael rheol gyson ar gyfer y ddau gategori o ddeunydd wedi'i eithrio nad yw'n dibynnu ar ddyddiad y gorchymyn na'r math o ymchwiliwr. Rydym yn argymell dros dro y dylid eithrio cofnodion meddygol ac ymgynghorol a deunydd newyddiadurol cyfrinachol o chwilio ac atafaelu ym mhob achos, oni bai efallai mewn achosion o gamymddwyn meddygol neu achosion lle mae'r claf yn cydsynio. Mae hyn yn golygu y gellir diddymu'r darpariaethau dan Atodiad 1 DHTHD sy'n caniatáu chwilio am ddeunydd wedi'i eithrio.

1.68 Mewn perthynas â deunydd gweithdrefn arbennig, rydym yn gwahodd barn ymgyngoreion ynghylch a dyllid adolygu diffiniadau deunydd gweithdrefn arbennig a fyddai'n egluro statws anfonebau busnes i gwsmeriaid a deunydd y gellir ei fod wedi'i gadw gyda'r bwriad o hyrwyddo pwrpas troseddol. Rydym hefyd yn gwahodd barn ar a ddylai eithrio cofnodion busnes

[17] DHTHD, a 9.

cyfrinachol o rymoedd gwarant chwilio gael eu gweithredu ymhob ymchwiliad at ddibenion hel tystiolaeth perthnasol i'r hyn y tybir ei bod yn drosedd, p'un ai eu bod yn cael eu cyflawni gan yr heddlu ai peidio.

1.69 Rydym hefyd yn ystyried gweithdrefnau atafaelu a hidlo dan DCTH a'r heriau wrth atafaelu deunydd sydd wedi'i gymysgu â deunydd wedi'i eithrio. Rydym yn argymell dros dro diwygio adran 8 DHTHD i adlewyrchu grymoedd atafaelu a hidlo dan DCTH a sut caiff adran 8 ei dehongli mewn ymarfer. Ymhellach, am fod y grymoedd dan DCTH yn ddewisol, rydym yn gwahodd barn a ddylid, ac os felly, ym mha ffurf, defnyddio adrannau 50 ac yn dilyn Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 mewn achosion lle mae eitemau wedi'u hatafaelu yn dilyn gweithredu gwarant chwilio. Yn benodol, rydym yn ystyried y sefyllfa lle mae'n dod i'r amlwg yn ddiweddarach bod y deunydd a atafaelwyd yn cynnwys deunydd nad oedd gan y person hawl i'w atafaelu neu nad yw ei gadw wedi'i awdurdodi a lle atafaelir dyfais electronig.

1.70 Rydym hefyd yn ystyried a ddylid rhoi mwy o amddiffyniad i ddeunydd newyddiadurol pan fydd chwiliad adeilad yn digwydd heblaw bod hynny dan warant.

### Deunydd electronig

1.71 Dros y degawdau diwethaf mae mwy a mwy o gofnodion busnes a mathau eraill o wybodaeth wedi'u cadw mewn ffurf electronig yn hytrach nag ar bapur. Yn ddiweddar mae Privacy International wedi tynnu sylw at y ffaith ei bod yn fwy tebygol bod gwybodaeth yn cael ei storio ar ddyfeisiau electronig person bellach nag yn y cartref .[18]Yn fwy diweddar, mae wedi dod yn gyffredin i ddeunydd gael ei storio ar weinydd o bell neu ar gyfrif cwmwl. Mae deunydd electronig yn codi problemau penodol ar gyfer y rhai hynny sy'n gweinyddu gwarantau chwilio. Mae'r Athro Richard Stone, arbenigwr blaenllaw ar rymoedd chwilio, yn nodi bod troseddau o bornograffi plant i dwyll yn debygol o fod angen tystiolaeth a ddaw o gyfrifiaduron, neu ffeiliau wedi'u seilio ar y we, sy'n codi heriau penodol o ystyried natur anghyffyrddadwy'r dystiolaeth a storfeydd wedi'u seilio ar gwmwl.[19]

1.72 Ym Mhennod 10 y papur ymgynghori rydym yn argymell dros dro y dylid cael grym i gyflwyno gwarant i chwilio am ddeunydd naill ai yn neu'n hygyrch o'r adeilad, cyhyd â bod y deunydd wedi'i ddisgrifio yn y warant ac yn bodloni'r amodau hygyrchedd yn y statud perthnasol. Byddai hyn yn golygu, pan fydd y ddyfais yn yr adeilad yn cael ei thanio, gall ymchwiliwr ei harchwilio am wybodaeth sydd naill ai wedi'i storio ar neu'n hygyrch o'r ddyfais.

1.73 Fodd bynnag ni fyddai grym i chwilio am dystiolaeth o droseddau ar wahân i'r hyn sy'n cael ei ymchwilio: byddai'r grym yn adran 19 DHTHD yn dal yn rym i atafaelu deunyddiau a ganfuwyd ac nid grym chwilio ar wahân. Medrid ystyried bod chwilio y tu hwnt i'r caniatâd a roddwyd yn y warant yn drosedd dan adran 1 Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990.

1.74 Rydym hefyd yn ystyried grymoedd cysylltiedig atafaelu dyfeisiau. Roedd nifer o randdeiliaid wedi ystyried nad atafaelu oedd y dewis gorau bob tro ar gyfer dyfeisiau electronig. Rydym felly yn argymell dros dro grym i gopïo deunydd o ddyfeisiau electronig yn yr adeilad sy'n agored i'w hatafaelu.

1.75 Nid ydym yn argymell yn y papur hwn bod cyfundrefn gwarantau chwilio yn cynnwys grym i ofyn bod person yn darparu cyfrineiriau, enwau llwybr neu fanylion mynediad eraill ar gyfer

[18] Privacy International, *Stopio a chwilio digidol* (Mawrh 2018). Ar gael ar https://privacyinternational.org/sites/default/files/2018-03/Digital%20Stop%20and%20Search%20Report.pdf (ymwelwyd ddiweddaraf XXX).

[19] R Stone, *The Law of Entry, Search, and Seizure* (5ed arg 2013) para 1.74.

deunydd sydd wedi'u storio o bell.[20] Pe darperid grym o'r fath byddai'r weithdrefn yn mynd y tu hwnt i warant chwilio ar gyfer adeilad ac yn dod yn rym cyffredinol i chwilio holl gofnodion person lle bynnag y'u cedwid: o gael y manylion mynediad cywir, mae'r rhain yn hygyrch o unrhyw ddyfais unrhyw le yn y byd. Byddai'n rhaid i unrhyw argymhelliad ar gyfer gwarant a gyflwynwyd yn farnwrol yn awdurdodi chwilio am ac atafaelu deunydd o'r fath, gael ei ystyried, os o gwbl, mewn adolygiad ehangach yn cynnwys grymoedd ehangach gan yr heddlu a deddfwriaeth gwyliadwriaeth.

1.76 Mewn rhai achosion, mae'n bosibl atafaelu deunydd neu ei gopïo i ddyfais fel ffon gof, ond ei fod yn annarllenadwy am ei fod wedi'i seiffro. Yn yr achosion hyn, mae grym dan Ran III RIPA i ofyn i berson ddarparu'r modd o ddatrys y seiffro.

### Cydgyfnerthu deddfwriaeth gwarant chwilio

1.77 Cyfeiriodd yr Arglwydd Ustus Gross, yn *Gittins*, at fframwaith cyfreithiol DHThD a DCTH yn rheoli gwarantau o'r fath fel "cymysgedd anffodus o ddarpariaethau deddfwriaethol".[21] Roedd hyn yn cyfeirio at ddwy gyfundrefn yn unig. Yn ystod cwrs y prosiect hwn rydym wedi nodi {XXXX) o ddarpariaethau gwarant chwilio, wedi'u cynnwys mewn ystod eang o ddeddfwriaeth. Mae gan bob grym ei seiliau ei hun dros gyflwyno gwarant, ei amodau ei hun ynghylch y modd y caiff y gwarant chwilio ei gweithredu ac, yn ogystal â'r chwiliad, gall awdurdodi grymoedd cysylltiedig (er enghraifft atafaelu).

1.78 Mae lluosedd y darpariaethau yn gosod cryn faich ar awdurdodau sy'n cyflwyno ac asiantaethau ymchwiliol sy'n delio gydag ystod eang o warantau. Rhaid i ynadon a barnwyr ddeall darpariaethau statudol penodol, a medrant ond cyflwyno'r warant os ydynt yn fodlon bod pob sail a nodir yn y statud wedi'i bodloni. Yn ogystal rhaid i asiantaethau sicrhau eu bod yn gwneud cais am warant chwilio dan y cynllun deddfwriaethol priodol a glynu'n agos iawn at y meini prawf statudol a dyletswyddau cyfraith gyffredin.

1.79 Ym Mhennod 11 y papur ymgynghori rydym yn gofyn nifer o gwestiynau ynghylch manteision ac anfanteision cydgyfnerthu grymoedd gwarant chwilio, naill ai'n gyffredinol neu oddi mewn i grwpiau penodol. Rydym hefyd yn ystyried a fedrai rhai o fanylion y grymoedd gwahanol gael eu cytgordio heb gydgyfnerthu.

### Y CAMAU NESAF

1.80 Rhestrir yr argymhellion dros dro a'r cwestiynau ymgynghori ym Mhennod 12 y papur ymgynghori.

1.81 Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus agored yn rhedeg tan 5 Medi 2018. Byddwn yn ystyried yr holl sylwadau a ddarperir yn ystod y cyfnod ymgynghori wrth baratoi ein hargymhellion terfynol. Ein bwriad yw cyhoeddi'r argymhellion terfynol yn ddiweddarach eleni.

---

[20] Ar wahân i'r grym sydd yn bodoli eisoes dan Ran III RIPA bod angen allwedd i ddogfennau ym meddiant ymchwiliwr.

[21] *Gittins v Central Criminal Court* [2011] EWHC 131 (Gwein), [2011] Lloyd's Rep FC 219 at [36(1)] per Gross LJ.